



## The Greater Gwent (Torfaen) Pension Fund

administered by Torfaen County Borough Council



LOCAL GOVERNMENT  
PENSION SCHEME

### CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

#### Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch cydymffurfio â chyfraith diogelu data

#### 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("y **Cynllun Pensiwn**") yng Nghymru a Lloegr yn gynllun pensiwn galwedigaethol wedi'i gofrestru o dan adran 153 o Ddeddf Cyllid 2004 ac ar hyn o bryd mae ei reolau wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (OS 2013/2356) fel y diwygiwyd ("**Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**").

1.2 Caiff y Cynllun Pensiwn ei weinyddu'n lleol gan awdurdodau gweinyddu a ddiffinnir yn Rheoliad 2 o Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1.3 Mae Gynor Bwrdeisdref Sirol Torfaen ("yr **Awdurdod Gweinyddu**") yn awdurdod gweinyddu o dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n rheoli ac yn gweinyddu cronfa bensiwn Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) o fewn y Cynllun Pensiwn (y "**Gronfa**") yn unol â'i ddyletswydd statudol o dan Reoliad 53 o Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd cyflogwyr sy'n cyflogi cyflogeion sy'n gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn yn cyfranogi o'r Gronfa fel "**Cyflogwr yn y Cynllun**" (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Gweinyddu a'r Cyflogwr yn y Cynllun (gyda'i gilydd y "**Partion**") rannu data personol sy'n ymwneud â chyflogeion presennol a chyn-gyflogeion y Cyflogwr yn y Cynllun sy'n cyfranogi o'r Gronfa (yr "**Aelodau**") a'u dibynyddion, er mwyn i'r Awdurdod Gweinyddu gyflawni ei ddyletswyddau statudol i reoli a gweinyddu'r Gronfa o dan Reoliad 53 o Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a darparu i'r Aelodau fuddion ar ôl ymddeol, talu budd-daliadau salwch, talu grantiau marwolaeth, talu pensiynau goroeswyr i wŷyr/gwagedd priod yr Aelodau, partneriaid sifil a phartneriaid oedd yn cyd-fyw, talu pensiynau plant ar ôl marwolaeth yr Aelod, cynnig i'r Aelodau yr opsiwn o dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i un neu ragor o ddarparwyr yn unol â Rheoliadau 1 - 52 o Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1.4 Mae rhwymedigaeth statudol ar Gyflogwyr yn y Cynllun, fel y nodir yn Rheoliad 80 o Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, i ddarparu data personol penodol yn ymwneud â'i Aelodau bob blwyddyn i'r Awdurdod Gweinyddu, gan gynnwys enw'r Aelod, ei ryw, dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol, tâl pensiynadwy, cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai i bensiwn, manylion unrhyw gyfraniadau ychwanegol i bensiwn a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

1.5 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi:

- (a) y sail y caiff data eu rhannu rhwng y Partion arni;

- (b) disgwyliadau'r Awdurdod Gweinyddu o'r Cyflogwr yn y Cynllun tra bo'n cyfranogi o'r Gronfa;

er mwyn cydymffurfio â Chyfraith Diogelu Data, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2016/679) ("**GDPR**") a fydd yn cael effaith gyfreithiol uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig ar ac ar ôl 25 Mai 2018.

1.6 Ystyr cyfeiriadau at "**Gyfraith Diogelu Data**" yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw Deddf Diogelu Data 1998, y Gyfarwyddeb Diogelu Data (95/46/EC), Cyfarwyddeb Diogelu Data Cyfathrebu Electronig (2002/58/EC), Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2003 (OS 2426/2003) (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2016/679) a'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â data personol a phreifatrwydd sy'n cael eu deddfu o bryd i'w gilydd, gan gynnwys (lle bo'n berthnasol) y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw awdurdod cymwys arall.

## **2 RHEOLYDDION DATA**

2.1 Mae'r Partïon yn cydnabod:

- (a) na fyddant yn cadw cronfa o ddata ar y cyd;
- (b) y byddant yn rheolyddion data annibynnol ac ar wahân mewn perthynas â'r copïau o ddata personol yr Aelodau y mae pob un ohonynt yn eu cadw;
- (c) y byddant yn gweithredu fel rheolydd data mewn perthynas â data personol a drosglwyddir iddynt;
- (d) y bydd pob un yn gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion mewn Cyfraith Diogelu Data sy'n berthnasol iddynt hwy fel rheolyddion data.

2.2 Mae cyfeiriadau at ddata personol Aelodau'n cynnwys data personol ynghylch dibynnyddion (gan gynnwys plant) a gŵyr/gwragedd priod / partneriaid sifil yr Aelodau (lle bo'n berthnasol).

## **3 RHANNU DATA**

3.1 Mae'r Partïon yn cadarnhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau priodol o dan Gyfraith Diogelu Data fel rheolyddion data ac yn cytuno i brosesu data personol sy'n ymwneud â'r Aelodau yn y ffyrdd canlynol yn unig:

- (a) yn deg ac yn gyfreithlon ac yn unol â'r egwyddorion diogelu data a nodir mewn Cyfraith Diogelu Data;
- (b) lle bo sail gyfreithlon dros wneud hynny; ac
- (c) yn unol â Chyfraith Diogelu Data a chanllawiau arfer gorau (gan gynnwys y Cod Rhannu Data sydd wedi'i gyhoeddi gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac sy'n cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd).

3.2 Bydd pob Parti'n rhoi gwybod ar wahân i'r Aelodau (fel sy'n ofynnol o dan Gyfraith Diogelu Data) am y dibenion y bydd pob un ohonynt yn prosesu eu data personol atynt ac yn darparu'r holl wybodaeth ofynnol er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n deall sut y bydd eu data personol yn cael eu prosesu ym mhob achos gan yr Awdurdod Gweinyddu neu'r Cyflogwr yn

y Cynllun (fel bo'n berthnasol). Bydd hysbysiad preifatrwydd y Cyflogwr yn y Cynllun i'r Aelodau'n rhoi gwybod iddynt y bydd eu data personol yn cael eu darparu i'r Awdurdod Gweinyddu ac y bydd copi o'r hysbysiad hwnnw'n cael ei ddarparu i'r Awdurdod Gweinyddu ar gais.

3.3 Mae pob Parti'n cadarnhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau yntau o dan Gyfraith Diogelu Data, i sicrhau y caiff data personol yr Aelodau y mae'n rheolydd data arnynt eu cadw a'u defnyddio'n ddiogel bob amser ac i gymryd y fath fesurau diogelwch technegol a sefydliadol yn erbyn prosesu'n ddiawdurdod ac yn anghyfreithlon, dinistrio'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon, colli, newid, datgelu'n ddiawdurdod neu fynediad at ddata personol yr Aelodau a gaiff eu trosglwyddo, eu storio neu eu prosesu fel arall, fel bo'n ofynnol. Bydd y fath fesurau'n rhoi sylw dyledus i gyflwr datblygiad technolegol a chost rhoi'r mesurau hyn ar waith, er mwyn sicrhau lefel diogelwch sy'n briodol i'r niwed a allai godi o brosesu o'r fath a natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion prosesu data personol yr Aelodau a'r risg neu'r tebygrwydd a'r difrifoldeb i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data. Bydd mesurau o'r fath yn sicrhau:

- (a) cyfrinachedd, cyfanrwydd, argaeledd a chydnerthedd parhaus prosesu data personol yr Aelodau;
- (b) y gallu i adfer argaeledd a mynediad at ddata personol yr Aelodau yn brydlon pe bai digwyddiad ffisegol neu dechnegol;
- (c) cyflawni gwaith rheolaidd i brofi, asesu a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau diogelwch y prosesu.

3.4 Mae pob Parti'n ymrwymo i hysbysu'r llall cyn gynted ag y bo'n ymarferol os canfyddir gwall yn nata personol yr Aelodau y mae'n rheolydd data arnynt ac a gafwyd oddi wrth y Parti arall neu y darparwyd copi ohonynt i'r Parti arall, er mwyn sicrhau y gall y Parti arall wedyn gywiro ei gofnodion yntau. Bydd hyn yn digwydd pan ganfyddir y gwall trwy fentrau ansawdd data sy'n bodoli eisoes neu pan ddygir sylw ato trwy ryw lwybr arall (megis bodolaeth gwallau'n cael ei hysbysu i'r Awdurdod Gweinyddu neu'r Cyflogwr yn y Cynllun (fel bo'n briodol) gan yr Aelod ei hun (neu ddibynyddion neu w'r priod / gwraig briod / partner sifil yr Aelod).

## **4 TROSGLWYDDO DATA PERSONOL AELODAU**

4.1 Mae'r Partïon yn cytuno na fydd data personol Aelodau'n cael eu trosglwyddo oddi wrth y naill Barti i'r llall ond trwy ddull derbyniol a ragnodir gan yr Awdurdod Gweinyddu a all gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- (a) wyneb yn wyneb
- (b) cludwr
- (c) e-bost ddiogel
- (d) cyswllt SFTP
- (e) cyfryngau symudol wedi'u hamgryptio
- (f) gwefan mynediad diogel
- (g) datrysiad trydydd partïon y bo'r Partïon yn cytuno arno

- (h) Porth Hunan Wasanaeth
- (i) Post
- (j) E-bost

4.2 Bydd pob Parti, wrth drosglwyddo data personol Aelodau y mae'n rheolydd data arnynt i'r Parti arall, yn sicrhau bod y data'n ddiogel wrth iddynt gael eu cludo (boed trwy ddull ffisegol neu ddull electronig).

4.3 Os yw'r Awdurdod Gweinyddu neu'r Cyflogwr yn y Cynllun yn penodi cyngorwyr proffesiynol, gweinyddwyr trydydd parti neu endid arall sy'n darparu gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo data personol Aelodau, bydd y trydydd partion hynny yn broseswyr data neu'n rheolyddion data ynddynt eu hunain. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu neu'r Cyflogwr yn y Cynllun (fel bo'n berthnasol) yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arno yn unol â Chyfraith Diogelu Data (yn benodol, trwy sicrhau bod unrhyw endid y mae'n trosglwyddo data personol Aelodau iddo hefyd yn cydymffurfio â Chyfraith Diogelu Data) a rhaid iddo sicrhau nad oes unrhyw beth yn y telerau ymgysylltu rhwng yr Awdurdod Gweinyddu neu'r Cyflogwr yn y Cynllun (fel bo'n berthnasol) a'r fath drydydd parti a fyddai'n groes i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## **5 HAWLIAU AELODAU (GAN GYNNWYS DIBYNYDDION, GŴYR/GWRAGEDD / PARTNERIAID SIFIL AELODAU (LLE BO'N BERTHNASOL))**

5.1 Rhaid i bob Parti, mewn perthynas â'r data personol y mae'n rheolydd data arnynt, ymateb i unrhyw geisiadau oddi wrth Aelodau i gael mynediad at eu data personol neu gŵyn neu ymholiad ynghylch y ffordd y mae'r Parti hwnnw wedi prosesu data personol yr Aelodau a ddaw i law'r Parti hwnnw yn unol â'r rhwymedigaethau sydd arno o dan Gyfraith Diogelu Data.

5.2 Mae pob Parti'n cytuno i roi cymorth rhesymol i'r llall fel bo angen i alluogi'r Parti arall i gydymffurfio ag unrhyw geisiadau o'r fath mewn perthynas â data personol Aelodau y mae'r Parti hwnnw'n rheolydd data arnynt ac i ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwynion eraill oddi wrth Aelodau.

## **6 ACHOSION O DOR-DIOGELWCH A GWEITHDREFNAU ADRODD**

6.1 Mae pob Parti'n cadarnhau ei fod yn deall y rhwymedigaethau sydd arno yntau o dan Gyfraith Diogelu Data pe bai unrhyw fynediad diawdurdod at ddata personol, prosesu data personol yr Aelodau'n ddiawdurdod neu'n anghyfreithlon, neu eu colli neu eu dinistrio neu eu niweidio, gan gynnwys (lle bo angen) rhwymedigaeth i hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r Aelod(au).

## **7 CYFRIFOLDEBAU'R CYFLOGWYR YN Y CYNLLUN**

7.1 Er gwaethaf y rhwymedigaethau statudol sy'n berthnasol i Gyflogwyr yn y Cynllun o dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fel rheolydd data o dan Gyfraith Diogelu Data, mae'r Awdurdod Gweinyddu, fel yr Awdurdod Gweinyddu ar gyfer y Gronfa, yn disgwyl i Gyflogwyr yn y Cynllun sy'n cyfranogi o'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfrifoldebau a nodir isod mewn perthynas â data personol Aelodau.

7.2 Ar gais, bydd y Cyflogwr yn y Cynllun yn hysbysu Sue Bullock, Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth ([dpa@torfaen.gov.uk](mailto:dpa@torfaen.gov.uk)) yn yr Awdurdod Gweinyddu am unrhyw berson cymwysedig sydd wedi'i benodi i gyflawni rôl swyddog diogelu data ynghyd

â'i fanylion cyswllt. Os nad yw'r Cyflogwr yn y Cynllun wedi penodi swyddog diogelu data, bydd y Cyflogwr yn y Cynllun, ar gais, yn hysbysu Sue Bullock, Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth yn yr Awdurdod Gweinyddu am fanylion person sydd wedi'i ddynodi at ddibenion cydymffurfio â GDPR.

7.3 Bydd y Cyflogwr yn y Cynllun yn dangos i foddhad yr Awdurdod Gweinyddu, wrth ymdrin â cheisiadau am ymddeoliad cynnar oherwydd salwch ar gyfer cyflogeion cyfredol fod cydsyniad penodol yr Aelod wedi ei sicrhau sy'n rhoi cydsyniad i brosesu gan y Cyflogwr yn y Cynllun a chan yr Awdurdod Gweinyddu. Os nad oes cydsyniad o'r fath wedi'i sicrhau, mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n gallu prosesu cais yr Aelod.

7.4 Mae'r Cyflogwr yn y Cynllun yn cydnabod y cosbau ariannol y gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth eu gosod mewn perthynas â thorri Cyfraith Diogelu. At hynny mae'r Cyflogwr yn y Cynllun yn cydnabod y gallai unrhyw atebolrwydd a fo arno i dalu cosb ariannol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth arwain at ddiwygio'r dystysgrif cyfraddau ac addasiadau yn unol â Rheoliad 62(7) o Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

7.5 Gallai methiant gan y Cyflogwr yn y Cynllun i gydymffurfio â'r telerau a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn beri i'r Awdurdod Gweinyddu gorfod rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth y Cyflogwr yn y Cynllun

## **8 ADOLYGU A DIWYGIO'R MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH**

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o bryd i'w gilydd. Ceidw'r Awdurdod Gweinyddu'r hawl i ddiwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar unrhyw adeg a bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflogwr yn y Cynllun am ddiwygiad o'r fath